# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 24 Medi 2013** |
| Amser: | **09:00 – 10:40** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_24_09_2013&t=0&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_24_09_2013&t=0&l=cy)

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafodd Steve George ei groesawu fel Clerc newydd y Pwyllgor a Kath Thomas fel aelod ychwanegol o'r tîm Clercio. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-496 Ysgolion pob oed

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

### 2.2 P-04-497 Cynllun Tai Cenedlaethol i Raddedigion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i ofyn am ei farn ar y ddeiseb; a
- gofyn am eglurhad pellach gan y Deisebydd ar nodau'r ddeiseb.

### 2.3P-04-498 Addysgu Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

### 2.4P-04-499 Rhoi Hwb i Gwricwlwm yr Iaith Gymraeg

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

### 2.5P-04-500 Galw am Reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i ofyn am ei farn ar y ddeiseb;
- gofyn am eglurhad pellach gan y deisebydd ar nodau'r ddeiseb; a
- dosbarthu nodyn ar y cyngor cyfreithiol a roddwyd yn y cyfarfod Pwyllgor.

### 2.6P-04-501 Gwneud canolfannau dydd ar gyfer pobl hŷn yn ofyniad statudol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

### 2.7P-04-502 Canolfan Lles ar gyfer Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

### 2.8P-04-503 Adfywio Tonpentre a Phentre

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i nodi ymateb y Gweinidog a gofyn iddi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor gydag amserlen ar gyfer ei ystyried ac unrhyw ddatblygiadau eraill ar y materion a godwyd yn sylwadau'r deisebydd.

### 3.2P-04-363 Cynllun i Wella Canol Tref Abergwaun

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at SWWITCH, gan anfon copi at Gyngor Sir Penfro i mewn yn gofyn iddo:

- fonitro'r sefyllfa a rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau yn agosach at y flwyddyn ariannol newydd; ac
- ystyried sut y gallai'r cynllun fodloni meini prawf y Cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn well.

### 3.3P-04-406 Yn erbyn Safle yng Ngogledd Cymru yn y Cynllun Parthau Cadwraeth Morol

**3.4P-04-411 Deiseb yn Erbyn Parthau Cadwraeth Morol yn Sir Benfro**
**3.5**

**3.6P-04-415 Cefnogaeth am Bennu Parthau Cadwraeth Morol Lefel Gwarchodaeth Uchel**
**3.7**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau P-04-406 a P-04-411 yn sgîl datganiad diweddar y Gweinidog; ond i gadw P-04-415 ar agor hyd nes bod yr Aelodau wedi cael cyfle i drafod yr ohebiaeth ddiweddar a ddarparwyd gan y deisebydd.

**3.8P-04-426 Cyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgîl ymateb cadarnhaol y Gweinidog i weithredu terfyn cyflymder o 40mya.

**3.9P-04-435 Gweithredu Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau 2018 ar Sail Ddi-ddifidend**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan fod y Gweinidog wedi cytuno i gynnwys y deisebydd mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.

**3.10 P-04-486 Gweithredu nawr er mwyn achub siopau y Stryd Fawr**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- gymryd tystiolaeth ar lafar ynghylch y ddeiseb;
- gwneud cais am bapur briffio ymchwil ar y dull presennol a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r DU, yn arbennig yn yr Alban;
- ymweld â safle maes o law;
- dosbarthu copi o adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Adfywio Canol Trefi i'r Aelodau;
- rhoi gwybod i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach am y ddeiseb; ac
- ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gofyn pryd y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn rhoi dadansoddiad llawn o Gyfraddau Busnes.

**3.11 P-04-343 Atal dinistrio amwynderau ar dir comin - Ynys Môn**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- wahodd y deisebwyr i siarad gyda'r Pwyllgor yn ei gyfarfod arfaethedig yng ngogledd Cymru ym mis Tachwedd; a
- dosbarthu nodyn ar y cyngor cyfreithiol a roddwyd yn y cyfarfod Pwyllgor.

**3.12 P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i'r Offeryn Statudol weithredu rheoliadau newydd y Gymuned Ewropeaidd a dychwelyd at y mater unwaith y bydd wedi'i gyflwyno.

**3.13 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog.

**3.14 P-04-439 Diogelu coed hynafol a choed treftadaeth Cymru ymhellach**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ystyried y mater ymhellach yn dilyn ymweliad y Pwyllgor â choetir ger Gregynog yn ystod ei raglen allgymorth yn yr hydref; ac
- aros i'r Bil Cynllunio (Cymru) drafft gael ei gyhoeddi.

**3.15 P-04-465 Achub llaeth Cymru, a seilwaith a swyddi'r diwydiant**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yng ngoleuni'r cwmni yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

**3.16 P-04-366 Cau canolfan ddydd Aberystwyth**

**3.17**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan fod y materion o dan sylw bellach, yn y bôn, yn fater gweithredol i'r cyngor lleol.

**3.18 P-04-440 Dywedwch 'Na' i werthu asedau Ysbyty Bronllys**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i weld yr achos busnes ar y weledigaeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei ffafrio, y mae'r Prif Weithredwr wedi cytuno i'w roi i'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

**3.19 P-04-456 Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am farn y deisebydd ar ohebiaeth y Gweinidog; ac
- aros i weld canlyniadau'r ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r fframwaith.

**3.20 P-04-463 Lleihau Lefelau Halen mewn Bwyd**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i roi cyfle arall i weld a yw'r deisebydd yn fodlon ag ymateb y Gweinidog.

**3.21 P-04-466 Argyfwng Meddygol - Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru.**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i wahodd y deisebwyr i siarad gyda'r Pwyllgor ynghyd â'r deisebwyr ar gyfer P-04-476 yn ei gyfarfod arfaethedig yng ngogledd Cymru ym mis Tachwedd.

**3.22 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Man Anafiadau Ysbyty Tywyn**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i wahodd y deisebwyr i siarad gyda'r Pwyllgor ynghyd â'r deisebwyr ar gyfer P-04-466 yn ei gyfarfod arfaethedig yng ngogledd Cymru ym mis Tachwedd.

**3.23 P-04-492 Diagnosis o awtistiaeth ymysg plant**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog yn gofyn iddi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa, chwe mis ar ôl cyflwyno'r cynllun gweithredu.

**3.24 P-04-419 Moratoriwm ar Ddatblygu Ffermydd Gwynt**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r deisebydd anfon copi o ymateb Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru i'w lythyr maes o law; a
- gofyn am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog am y wybodaeth newydd a gyflwynwyd gan y deisebydd.

**3.25 P-04-423 Cartref Nyrsio Brooklands**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i gael barn y deisebydd ar y sefyllfa ddiweddaraf fel yr amlinellwyd gan y Cyngor.

**3.26 P-04-493 Moratoriwm ar Gynlluniau Datblygu Lleol mewn Rhanbarthau Dinesig posibl**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan fod Llywodraeth Cymru wedi diystyru'r dull y mae'r deisebydd wedi'i awgrymu.

**3.27 P-04-436 Gwariant a Refeniw Llywodraeth Cymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog ymateb i'r pwyntiau eraill a godwyd gan y deisebydd.

**3.28 P-04-441 Gwaith i Gymru - Work for Wales**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i gael barn y deisebydd a Colegau Cymru.

**3.29 P-04-488 Yr hawl i benderfynu: diwedd ar astudiaeth orfodol o’r Gymraeg hyd at lefel TGAU**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros hyd nes y bydd yr adolygiad o addysgu Cymraeg fel ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 wedi'i gyhoeddi.

**3.30 P-04-447 Ymgyrch am Gerflun o Harri’r Seithfed ym Mhenfro**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am ymatebion gan Ymddiriedolaeth Castell Penfro a Chyngor Tref Penfro.

**3.31 P-04-476 Ailstrwythuro Amgueddfa Cymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- aros i gael barn y deisebwyr ar yr ohebiaeth gan y Gweinidog ac Amgueddfa Cymru; a
- gofyn i Amgueddfa Cymru am y wybodaeth ddiweddaraf.

**3.32 P-04-397 Cyflog Byw**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am ragor o wybodaeth am gyflog byw, y gofynnwyd amdani, gan Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar gyflog byw.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5 P-03-262 Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute: Adroddiad drafft

Cytunwyd ar yr adroddiad drafft.